

Ysgol Gynradd St Philip Evans – Adroddiad yr Haf

Ysgol Gynradd St Philip Evans – Unigolion Iach a Hyderus – Dirnadaeth Disgyblion – Cylch 2

Trosolwg o'r Ymholiad

Cwestiwn Ymholi: Sut gallwn ymwreiddio diben Unigolion Iach a Hyderus ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad?

Cynllun a Methodoleg yr Ymholiad

Defnyddiwyd dulliau cymysg – holiadur, grŵp ffocws, dulliau gweledol.

Yr Arolwg

Cynhaliodd y disgyblion arolwg er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn mae'r disgyblion yn ei ddirnad a'i deall am y meysydd sy'n perthyn i 'Unigolion Iach a Hyderus'. Hefyd, mae wedi rhoi gwell darlun i'r ysgol o'r hyn mae'r disgyblion yn ei gredu yw unigolyn iach a hyderus. Gofynnwyd i gynrychiolwyr o Gyfnod Allweddol 2 gyfranogi yn yr arolwg hwn fel rhan o grŵp ffocws.

Cynrychioli Gweledol

Gofynnwyd i grŵp ffocws, a oedd yn cynnwys 4 disgybl o bob grŵp blwyddyn o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 6, gynrychioli mewn modd gweledol yr hyn yr oedd Unigolyn Iach a Hyderus yn ei olygu iddynt. Gofynnwyd iddynt ddefnyddio geirfa allweddol o amgylch eu delwedd a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r athrawon ysgrifennu ar ran y disgyblion iau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiwn ymholi: 'Sut gallwn ymwreiddio diben craidd 'Unigolion Iach a Hyderus' ym mhob maes Dysgu a Phrofiad?', aethpwyd ati i ddefnyddio dulliau cymysg er mwyn cael cipolwg ar ddirnadaeth a dealltwriaeth disgyblion trwy'r ysgol.

Grŵp Ffocws

Cynhaliwyd dull ansoddol o ofyn cwestiynau cyfweiliad er mwyn gallu deall yn fanwl beth oedd dirnadaeth a dealltwriaeth y disgyblion o Ddiben 'Unigolion Iach a Hyderus' yn Ysgol Gynradd St Philip Evans. Trwy ddefnyddio'r dull ymchwil hwn, bu modd i ni gasglu data gan drawstoriad o ddisgyblion, gyda chynrychiolaeth o bob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2. Rhoddwyd amser yn ystod y sesiwn i'r disgyblion drafod y cwestiynau cyn i'w hatebion gael eu cofnodi.


Gofynnwyd iddynt gynllunio'u hymatebion trwy ddefnyddio dulliau gweledol, yn cynnwys mapiau meddwl, a defnyddiwyd y rhain hefyd fel tystiolaeth wrth grynhoi'r canfyddiadau allweddol. Darparwyd cwestiynau trafod gweledol i ysgogi trafodaeth, yn cynnwys meysydd o fewn Diben Craidd 'Unigolion Iach a Hyderus'.

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol gan Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Rhannwyd diben ac egwyddorion cynllunio'r prosiect gyda'r cyfranogwyr. Yna, rhannwyd gwybodaeth allweddol trwy ddefnyddio taflen wybodaeth a ddarparwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Dywedwyd wrth y cyfranogwyr am gefndir yr ymholiadau ymchwil a beth oedd cysylltiad Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Yna, dywedwyd yn benodol wrthynt yr hyn y byddai'r gwaith ymchwil yn ei olygu a pha ddulliau ymchwil a fyddai'n cael eu defnyddio. Rhoddwyd sicrwydd i'r cyfranogwyr y byddai'r dyfyniadau'n ddiennw ac na fyddent yn cael eu defnyddio mewn dogfennau cyhoeddus heb ganiatâd. Hefyd, pe bai caniatâd yn cael ei roi, ond pe bai'r cyfranogwr yn penderfynu'n ddiweddarach nad oedd yn dymuno cymryd rhan, esboniwyd y byddai'r

penderfyniad hwnnw'n cael ei barchu ac na fyddai data'r disgybl hwnnw'n cael ei ddefnyddio. Rhoddwyd yr hawl i bob cyfranogwr dynnu caniatâd yn ôl unrhyw adeg. Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr fod yr wybodaeth a'r data i gyd yn hollol gyfrinachol, ac y byddai holl ffurfiau'r wybodaeth a'r data'n cael eu dinistrio ar ôl i'r astudiaeth ddod i ben. Yn olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi eu caniatâd mewn Ffurflen Caniatâd Cyfranogiad Disgyblion a ddarparwyd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Rhoddwyd caniatâd gan yr holl gyfranogwyr.

Canfyddiadau

Allweddol:



Datganiadau	Cytuno'n gryf	Cytuno
Rwy'n wydn ac yn deall pwysigrwydd empathy.	50%	50%
Rwy'n cael fy addysgu sut i gadw'n iach ac yn ddiogel.	75%	25%
Rwy'n deall pwysigrwydd deiet ac ymarfer corff.	75%	25%
Rwy'n cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.	75%	25%
Mae gennyf yr hyder i berfformio.	50%	50%
Rwy'n cael cyfleoedd i wynebu a goresgyn heriau.	62.5%	37.5%
Rwy'n cael fy annog i fod yn annibynnol yn yr ysgol.	75%	25%

Cryfderau:

Mae 75% o'r disgyblion yn cytuno'n gryf eu bod yn cael eu haddysgu sut i gadw'n iach ac yn ddiogel.

Mae 75% o'r disgyblion yn cytuno'n gryf eu bod yn deall pwysigrwydd deiet ac ymarfer corff.

Mae 75% o'r disgyblion yn cytuno'n gryf eu bod yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

Mae 75% o'r disgyblion yn cytuno'n gryf eu bod yn cael eu hannog i fod yn annibynnol yn yr ysgol.

Meysydd i'w datblygu:

Dim ond 50% o'r disgyblion sy'n cytuno'n gryf eu bod yn wydn ac yn deall pwysigrwydd empathi.

Dim ond 50% o'r disgyblion sy'n cytuno'n gryf eu bod â'r hyder i berfformio.

Dim ond 62.5% o'r disgyblion sy'n cytuno'n gryf eu bod yn cael eu hannog i fod yn annibynnol.

Rhaid rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Ysgol Gynradd St Philip Evans ddatblygu gwynnwch ac empathi.

Rhaid rhoi cyfleoedd pellach i ddisgyblion Ysgol Gynradd St Philip Evans fagu hyder wrth gymryd rhan mewn perfformiadau.

Rhaid rhoi cyfleoedd pellach i ddisgyblion Ysgol Gynradd St Philip Evans ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Data Ansoddol – Cryfderau

- Mae'r disgyblion wedi dweud bod yna ddigon o gyfleoedd i gymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol yn eu bywydau beunyddiol. Gallant roi sawl enghraifft o'r modd mae'r ysgol yn ymwreiddio ac yn hyrwyddo hyn, yn enwedig yn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.
- Trwy ddulliau cynrychioli gweledol a chanfyddiadau'r grŵp ffocws, mae'n amlwg fod y disgyblion yn cysylltu 'Unigolion Iach a Hyderus' ag iechyd corfforol a'r hyder i berfformio.
- Trwy ddulliau cynrychioli gweledol, mae'n amlwg fod gan y disgyblion ddealltwriaeth fanwl o'r effaith a gaiff deiet iach ar iechyd corfforol.
- Trwy ddulliau cynrychioli gweledol, mae'n amlwg fod y disgyblion yn cysylltu gwerthoedd a chred ysbrydol â'r diben 'Unigolion Iach a Hyderus', gan fod mwyafrif y disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn cysylltu credoau ysbrydol a rhinweddau ein hysgol â'r diben. Mae'r rhain yn cynnwys 'tosturiol, caredig, cariadus, amyneddgar, egniol, chwilfrydig, a'r gallu i dalu sylw'.

A ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ymholiad hwn?

Nac ydym. Fy mwriad yw defnyddio'r canfyddiadau sydd wedi deillio o gylchoedd dirnadaeth yr athrawon a'r disgyblion i siapia cynllun ein cwricwlwm fel ysgol o fis Medi ymlaen. Hefyd, rwy'n bwriadu cynnwys y clwstwr yn y cyfleoedd i gynllunio'r cwricwlwm, fel y gellir rhannu syniadau ynglŷn â sut i ymwreiddio'r diben hwn ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, gan eu bod hwythau hefyd wedi cynnal eu hymholiadau eu hunain mewn perthynas â diben y cwricwlwm.

Beth wnaethoch ei ddysgu, yn bersonol ac fel ysgol, o ganlyniad i'r broses ymholi?

Dengys y canfyddiadau fod gan y disgyblion ddealltwriaeth gyfyngedig o'r effaith a gaiff deiet ac ymarfer corff ar iechyd meddwl.

Nid yw'r disgyblion yn ystyried yr arfer o wynebu a goresgyn heriau fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r diben hwn.

- Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi awgrymu eu bod angen mwy o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i feithrin empathi a gwytnwch.

- Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi awgrymu eu bod yn edrych ar y cyfryngau cymdeithasol a'r effaith ar iechyd meddwl fel cyd-destun ar gyfer meithrin gwytnwch ac empathi.

- Mae Blwyddyn 3 wedi awgrymu y dylai'r disgyblion gael mwy o gyfleoedd i feithrin eu sgiliau perfformio trwy gyfrwng drama.

- Mae gan y plant ddealltwriaeth gyfyngedig o'r effaith a gaiff deiet ac ymarfer corff ar iechyd meddwl. Gellid datblygu hyn ymhellach mewn prosiect Cyfnod Allweddol 2 Is.

- Mae dulliau cynrychioli gweledol mewn perthynas ag Unigolion Iach a Hyderus yn y Cyfnod Sylfaen yn awgrymu bod disgyblion trwy'r ysgol yn deall yr effaith a gaiff deiet iach ac ymarfer corff ar iechyd corfforol. Fodd bynnag, dealltwriaeth gyfyngedig sydd gan y disgyblion o'r effaith a gaiff deiet ac ymarfer corff ar iechyd meddwl, a'r unig rai i wneud y cysylltiadau hyn oedd disgyblion Blwyddyn 6 y grŵp ffocws, a Blwyddyn 3 trwy ddulliau cynrychioli gweledol.

Beth fu'n fwy o her?

Gan fod cynrychiolwyr i'w cael o blith holl grwpiau blwyddyn Cyfnod Allweddol 2, cafodd y plant iau eu taflu i'r cysgod braidd gan Flwyddyn 6. Gan mai fi yw eu hathro dosbarth, roeddynt yn llawer mwy hyderus wrth ateb cwestiynau ac roedd ganddynt ddealltwriaeth well a dyfnach o rai o'r ymadroddion allweddol o fewn y diben 'Unigolion Iach a Hyderus'. Roedd cynnal trafodaeth gydag athro dosbarth nad oeddynt yn ei adnabod, ynghyd ag ateb cwestiynau mewn grŵp ffocws, yn brofiad newydd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Oherwydd hyn, roedd rhai o'r plant yn nerfus a dihyder wrth ateb y cwestiynau a ofynnwyd iddynt. Fel athro, roeddwn yn teimlo wrth weithio gyda'r plant ei bod hi'n anodd peidio â chynnig awgrymiadau iddynt a'u cynorthwyo i ddod o hyd i'r atebion pan oeddynt yn cael trafferth.

Beth fydddech chi wedi'i wneud yn wahanol?

Rwy'n teimlo bod canlyniadau'r holiadur yn rhy gyfyng i esgor ar ddata meintiol. Pe bawn yn defnyddio dulliau cymysg eto, byddwn yn sicrhau bod Cyfnod Allweddol 2 i gyd yn llenwi'r holiadur er mwyn cael darlun mwy cynrychiadol o'r hyn mae'r disgyblion yn ei ddeall am 'Unigolion Iach a Hyderus'. Hefyd, rwy'n credu bod disgyblion iau y grŵp ffocws wedi cael eu taflu i'r cysgod braidd gan Flwyddyn 6. Byddwn yn ceisio goresgyn hyn trwy ofyn i Gynorthwyydd Addysgu ofyn y cwestiynau, fel na fyddai unrhyw grŵp blwyddyn arbennig yn fwy cyfforddus na'r llall. Ymhellach, byddwn yn sicrhau y byddai cyfleoedd penodol ar gael i annog mwy ar y cyfranogwyr iau i ateb y cwestiynau a ofynnwyd.

Beth wnaeth weithio'n dda? / Pa agweddau fu fwyaf defnyddiol?

Bu defnyddio dull cymysg yn ddefnyddiol, oherwydd bu modd i mi driongli'r data a'r canfyddiadau er mwyn cael darlun gwell o ddealltwriaeth a dirnadaeth disgyblion trwy'r ysgol. Trwy ddefnyddio dulliau cynrychioli gweledol bu modd rhoi ystyriaeth i farn disgyblion y Cyfnod Sylfaen, ac yn ddi-os byddwn yn defnyddio'r dull ymholi hwn eto gyda disgyblion iau'r ysgol.

A fydddech chi'n argymhell ymholi proffesiynol i gydweithwyr?

Byddwn, yn ddi-os. Trwy roi prosiect ymholi proffesiynol ar waith mae modd cael dealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau neu feysydd allweddol y mae angen eu datblygu. Wrth gynnwys ystod eang o randdeiliaid trwy gyfrwng dulliau ymchwil, mae modd i'r staff a'r plant gael dealltwriaeth fanylach. Hefyd, mae hyn wedi grymuso'r staff, oherwydd mae'n rhoi llais iddynt ar gyfer rhannu eu barn. Mae meithrin diwylliant ymholi proffesiynol ar draws yr ysgol wedi galluogi'r staff i ddatblygu dull hunanfyfyrion mewn perthynas â diwygio'r cwricwlwm. Hefyd, mae'n sicrhau bod y staff yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Mae ymholiadau seiliedig ar ymchwil yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r staff o sut a pham mae angen cyflwyno newidiadau, ac o'r herwydd mae'r staff yn buddsoddi mwy yn y broses. Mae ymholi proffesiynol yn creu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio mewn ysgolion.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i ysgolion sy'n ystyried mynd i'r afael â'u hymholiad proffesiynol eu hunain?

Cyn mynd i'r afael ag unrhyw gylch ymholi o fewn yr ysgol, mae'n bwysig i'r staff gael dealltwriaeth glir o'r modd y gallant elwa ar ymholi proffesiynol. Hefyd, bu o fudd esbonio i'r staff y cysylltiad rhwng ymholi proffesiynol a safonau addysgu ac arweinyddiaeth a'r model 'ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu', er mwyn i'r staff ddeall sut mae'r dull hwn yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru yn gyffredinol. Bu o fudd hefyd mynd ati i hyfforddi'r holl staff i gynnal ymholiad proffesiynol a nodi manteision ac anfanteision pob dull ymholi cyn mynd i'r afael â'r cylch ymholi cyntaf. Trwy wneud hyn, roedd y staff yn deall pa mor bwysig oedd bod yn agored ac yn onest wrth gymryd rhan, gan eu bod yn deall yn well beth oedd manteision y broses a sut byddai'n datblygu ein cwricwlwm wrth symud ymlaen.